***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 22. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## RHAN 5

## CYFLOGEION

*Penodi*

22 (1) Caiff SAC gyflogi staff.

(2) Ni all person gael ei benodi yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rhan 6 o'r Atodlen hon.

(3) Bydd person yn peidio â bod yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau hynny.

(4) Bydd staff SAC yn cael eu cyflogi ar y telerau hynny y caniateir i SAC eu penderfynu.

(5) Ni chaiff person sy'n gyflogai i SAC ddal unrhyw swydd y caniateir penodi person iddi, argymell person ar ei chyfer neu enwebu person ar ei chyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 22 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 22.